

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



# Teitl y swydd: Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni



**Cyflog:** £46,142– £48,226

**Cyfnod:** Parhaol

**Un o'r lleoliadau isod;**

**Lleoliad: Halkyn, Conwy, Bangor, Llandrindod, Dolgellau, Aberystwyth, Newtown, i gynnwys gweithio hybrid**

**Dyddiad cau:** 21/05/2026 10:00

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

## Pwrpas y swydd

Cyfle cyffrous i ymuno â thîm sefydledig o Rheolwyr Brosiect a Rhaglen sy'n darparu prosiectau cyfalaf ar y rhwydwaith Cefnffyrdd ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am arwain ar reoli prosiectau gwella Priffyrdd, uwchraddio a phrosiectau cyfalaf cynnal a chadw, trwy ein cadwyni cyflenwi estynedig yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r swydd yn elwa o'n model gweithio hybrid gyda'r cyfle i weithio gartref.



# Cyfrifoldebau

## Prif ddyletswyddau

- Bod yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu holl brosiectau strwythurau yr Asiant a sicrhau y cânt eu cyflawni yn unol â'r gofynion costau, amser ac ansawdd.
- Cynorthwyo i gydlynu a rhaglennu cynlluniau adnewyddu, uwchraddio a chynlluniau diogelwch blynyddol a phob pum mlynedd yr Asiant.
- Cefnogi'r Noddwyr Prosiect yr Asiant i ddatblygu a chyflawni rhaglenni gyffredinol o brosiectau refeniw a chyfalaf yr Asiant.
- Gweithredu fel arbenigwr strwythurau'r Asiantaeth a chynghori ar faterion strwythurol yn ôl yr angen
- Sicrhau bod y gwaith o weinyddu contractau ar gyfer prosiectau ar y rhwydwaith yn cydymffurfio â gofynion LIC.
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu polisi a gweithdrefnau caffael prosiectau, gan gynnwys datblygu a gweithredu'r system rheoli prosiectau SharePoint a'r gronfa ddata gysylltiedig.
- Cynorthwyo yng nghyswllt agweddau technegol a chytundebol y sefydliad i monitro ac adnewyddu contractau fframwaith yr Asiant.
- Gweithredu fel Noddwr Prosiect a Chleient CDM ar brosiectau fel y cytunir.
- Bod yn rheolwr prosiect i'r gwasanaethau contractwyr a ymgynghorwyr yn unol â gweithdrefnau'r Asiant, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion perfformiad.




# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Meini prawf penodol i’r swydd

**Nodweddion personol:**

**Hanfodol**

- Gallu gweithio dan bwysau
- Yn ymroddgar â’r gallu i gymell ei hun
- Gallu derbyn, cydweddu a gwerthuso gwybodaeth o ffynonellau amrywiol
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn frwdfrydig a meddu ar y gallu i weithio gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosib

**Cymwysterau a hyfforddiant personol:**

- Gradd neu gyfwerth mewn Peirianneg Sifil neu ddisgyblaeth briodol
- neu
- HNC neu gyfwerth mewn Peirianneg Sifil neu ddisgyblaeth briodol a phrofiad perthnasol sylweddol

**Profiad perthnasol:**

- Profiad perthnasol mewn reoli a chyflawni cynlluniau gwella isadeiledd
- Profiad o gydlynu a rheoli rhaglenni gwaith
- Profiad o weinyddu contractau a prosiectau chaffael

**Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:**

- Gallu trefnu blaenoriaethau gwaith, cynllunio ymlaen llaw a chyflwyno rhaglenni gwaith yn brydlon gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosib
- Gallu cydlynu a rheoli’n effeithiol y broses o gyflwyno rhaglenni gwaith drwy ddarparwyr gwasanaeth i derfynau amser penodedig
- Ymgymryd â dyletswyddau’n hyderus ac yn broffesiynol, gyda’r gallu i ddangos arloesedd a chreadigedd
- Gallu derbyn, cydweddu a gwerthuso gwybodaeth o amryw o ffynonellau, a darparu argymhellion manwl
- Trwydded yrru gyfredol

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:



- 29.5 o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- Gweithio oriau hyblyg



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.



- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.



- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.